# Digwyddiadau a chyfarfodydd swyddogol
*16/08/2012*

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 19 Gorffennaf, pan wnaethoch ofyn

*A fyddech cystal ag anfon rhestr o ddigwyddiadau/cyfarfodydd swyddogol y tu allan i Gymru yr aeth y Llywydd iddynt ac amser a lleoliadau'r cyfarfodydd ar gyfer:*
*a) Y Cynulliad Cyntaf*
*b) Yr Ail Gynulliad*
*c) Y Trydydd Cynulliad*
*ch) Y Cynulliad presennol hyd yma*

Rwyf wedi darparu'r wybodaeth o'r Trydydd a'r Pedwerydd Cynulliad yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Ni wnaethom gadw manylion am ymrwymiadau dyddiadur y Llywydd yn y Cynulliad Cyntaf a'r Ail Gynulliad.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Cyhoeddir y wybodaeth hon ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-commission.htm
Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@cymru.gov.uk
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Atodiad 1**

Trydydd Cynulliad: Digwyddiadau yr aeth y Llywydd iddynt y tu allan i Gymru:

| Dyddiad | Digwyddiad/Cyfarfod | Lleoliad |
|---|---|---|
| 29.06.07 - 01.07.07 | Agoriad Swyddogol Senedd yr Alban | Caeredin, yr Alban |
| 11-12.09.07 | Cyfarfod y Llywyddion / Llefarwyr | Stormont, Gogledd Iwerddon |
| 17.12.07 | Cyfarfod â Dr Hywel Francis (AS) | Portcullis House, Llundain |
| 17.12.07 | Cyfarfod â Ivor Richards ynghylch y Bil Dur | Dau Dŷ'r Senedd, Llundain |
| 27.02.08 | Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi | Tŷ Gwydyr, Llundain |
| 03.03.08 | Prifysgolion y DU. Derbyniad y Canghellor | Tŷ'r Cyffredin, Llundain |
| 03.03.08 | Cinio Dydd Gŵyl Dewi | Guildhall, Llundain |
| 19-20.05.08 | Senedd yr Alban | Caeredin, yr Alban |
| 21.11.08 | Derbyniad gyda'r Nos | Palas Buckingham |
| 04.03.09 | Amser i Fyfyrio yn Senedd yr Alban | Caeredin, yr Alban |
| 1-2.07.09 | Senedd yr Alban, EM y Frenhines yn Nodi Dengmlwyddiant Senedd yr Alban | Caeredin, yr Alban |
| 22-23.11.09 | Cyfarfod Teirochrog Llywyddion / Llefarwyr | Stormont, Gogledd Iwerddon |
| 17.07.10 | Pen-blwydd Merthyron St John Roberts | Eglwys Gadeiriol Westminster, Llundain |
| 16.10.10 | Ymweliad y Pab | Caeredin, yr Alban |
| 18.10.10 | Ymweliad y Pab | Westminster, Llundain |
| 09.03.11 | Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi | Tŷ'r Cyffredin, Llundain |
| 10.03.11 | Derbyniad Dydd Gŵyl Dewi | Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad, Llundain |
| 29.04.11 | Y Briodas Frenhinol | Llundain |

Pedwerydd Cynulliad: Digwyddiadau yr aeth y Llywydd iddynt y tu allan i Gymru:

| Dyddiad | Digwyddiad/Cyfarfod | Lleoliad |
|---|---|---|
| 23.06.11 | Pwyllgor Sefydlog Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE) | Santiago de Compostela, Sbaen |
| 30.06.11 | Agoriad Brenhinol Senedd yr Alban | Caeredin, yr Alban |
| 15.09.11 | Pwyllgor Sefydlog Cynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE) | Tenerife, Yr Ynysoedd Dedwydd, Sbaen |
| 25.09.11 | Cyfarfod Teirochrog y Llywyddion / Llefarwyr | Belfast, Gogledd Iwerddon |
| 09.02.12 | Cyfarfod â John Bercow (Llefarydd) | Westminster, Llundain |
| 09.02.12 | Cyfarfod â Jennette Arnold, Cadeirydd, Cynulliad Llundain | Cynulliad Llundain Fwyaf, Llundain |
| 15.02.12 | Digwyddiad Jiwbilî Ddiemwnt y Frenhines | Lambeth Palace, Llundain |
| 20.03.12 | Digwyddiad Jiwbilî Ddiemwnt Ei Mawrhydi | Neuadd Westminster, Llundain |
| 29.06.12 | Cyfarfod Pedairochrog y Llywyddion / Llefarwyr | Caeredin, yr Alban |

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os nad ydym wedi dilyn y Cod yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydym wedi cadw at y deddfau perthnasol, gallwch wneud cwyn swyddogol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir manylion ynghylch egwyddorion cwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymddygiad ar Gwyno sydd ar gael ar y fewnrwyd yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod os ydych am gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych yr hawl i wneud cais uniongyrchol am benderfyniad gan y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**